# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 4

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Cofrestru*

### 34 Cofrestr o bersonau sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy

(1) Rhaid i ACC gadw cofrestr o bersonau sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy.

(2) Mae person yn cyflawni gweithrediadau trethadwy os yw'r person yn weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig lle y gwneir gwarediadau trethadwy.

(3) Rhaid i gofnod person ar y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2.

(4) Caiff y gofrestr gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae ACC o'r farn ei bod yn briodol at ddibenion casglu a rheoli'r dreth.

(5) Caiff ACC gyhoeddi gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 34 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 34 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(h)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 34.